Disgrifiad swydd

Trosolwg o'r swydd

Mae angen gwaith tîm i gefnogi ein carchardai.

Fel unigolyn ar Raddfa Cymorth Gweithredol, byddwch yn gofalu am redeg carchar prysur o ddydd i ddydd, gan weithio mewn tîm agos i gyflawni amrywiaeth o wasanaethau cefnogi – popeth o ddyletswyddau patrolio a phorth, i reoli danfoniadau, goruchwylio ymwelwyr, a monitro galwadau ffôn a Theledu Cylch Cyfyng. Byddwch yn gweithio amrywiaeth o shifftiau, gan gynnwys nosweithiau i gadw pethau i fynd. Yn wahanol i'n swyddogion yn y carchar, mae eich cyswllt â throseddwyr yn gyfyngedig, er, yn dibynnu ar y carchar penodol, efallai y byddwch yn rhyngweithio â throseddwyr o bryd i'w gilydd.

Does dim angen unrhyw gymwysterau arnoch ar gyfer y swydd hon. Mae helpu i sicrhau bod carchar yn rhedeg yn esmwyth ac yn ddiogel yn gofyn am grebwyll, synnwyr cyffredin, cyfrifoldeb ac, yn anad dim, gwaith tîm.

Yn ychwanegol at eich cyflog sylfaenol, byddwch yn derbyn:

- 25 diwrnod o wyliau blynyddol pan benodir chi, a bydd yn cynyddu i 30 diwrnod ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth (cyfrifir ar sail pro-rata)
- 9 diwrnod o wyliau banc, gwyliau cyhoeddus a diwrnodau braint
- mynediad at brentisiaeth Lefel 2 gyda thâl mewn gwasanaeth i gwsmeriaid
- mynediad at gynllun pensiwn hael y Gwasanaeth Sifil
- benthyciadau tocyn tymor, gostyngiadau adwerthu, Rhaglen Cymorth i Weithwyr a chynllun Beicio i'r Gwaith

B Cenedlaethol - £20,890

Mae'r ffigurau cyflog a ddyfynnir ar gyfer wythnos waith 37 awr yn cynnwys lwfans gweithio oriau anghymdeithasol o 17% sydd wedi'i gynnwys yn y cyflog i adlewyrchu'r gofyniad i weithio shifftiau dros nos, gyda'r nos ac ar benwythnosau. Ac unrhyw daliad atodol ar sail y farchnad na fydd ond yn cael ei dalu mewn lleoliadau penodol.

Oriau

Byddwch yn gweithio 37 awr yr wythnos ar gyfartaledd a bydd hyn yn cynnwys gweithio shifftiau nos, gyda'r nos ac ar benwythnosau ar batrwm shifftiau treigl (mae'r dyddiau hyn yn cael eu hychwanegu at eich lwfans gwyliau). Bydd amlder y shifftiau nos yn amrywio ar gyfer pob Sefydliad a gellir ei drafod yn y cyfweliad. I gael enghraifft o amseroedd y shifftiau y gallech chi fod yn eu gweithio ewch i'n gwefan

Cyfrifoldebau, gweithgareddau a dyletswyddau

Byddwch yn cael eich defnyddio'n hyblyg i gyflawni rolau gweithredol ar draws y carchar yn ôl yr angen. Mae cyfrifoldebau, gweithgareddau a dyletswyddau yn debygol o gynnwys:

- **dyletswyddau wrth y gât/porth:** sicrhau bod staff, ymwelwyr a cherbydau yn dod i mewn ac yn gadael yn ddiogel; chwilio staff, carcharorion, ymwelwyr, contractwyr a cherbydau; dosbarthu a chasglu allweddi/setiau radio staff
- **ystafell reoli:** gweithredu system radio'r sefydliad a monitro teledu cylch cyfyng gan sicrhau bod pob gweithgaredd amheus yn cael ei riportio
- **ymweliadau:** archebu ymweliadau; canfod pwy yw'r ymwelwyr a'u prosesu ar ôl iddynt gyrraedd, eu hebrwng os oes angen

- **sensor/gohebiaeth:** monitro/cofnodi post a rhoi gwybod am unrhyw eitemau anghyfreithlon neu waharddedig (contraband), gan gynnal a diogelu tystiolaeth
- **dyletswyddau nos:** sicrhau bod drysau celloedd yn cael eu cloi/diogelu a bod pob carcharor yn ddiogel a bod cyfrif amdanynt
- **derbynfa:** helpu i gefnogi tasgau priodol yn y dderbynfa; tynnu lluniau carcharorion; casglu dogfennau ar gyfer y broses eiddo; chwilio/tynnu llun pelydr-x o eiddo carcharorion a pharseli sy'n dod i mewn; derbyn eitemau ar gyfer carcharorion a gwneud yn siŵr bod yr holl seliau'n gyflawn wrth storio eiddo
- **goruchwylio carcharorion:** goruchwylio carcharorion yn ôl yr angen; cyfnewid dillad/eiddo carcharorion a chynorthwyo swyddogion gyda symudiadau llif rhydd
- **danfon bwyd:** danfon a chasglu bwyd gyda throli, a allai gynnwys defnyddio cerbyd dosbarthu trydan
- **dyletswyddau gyrru:** cludo carcharorion a'u hebrwng i'w cyrchfan yn y cerbyd cellog; casglu post o'r swyddfa ddidoli leol
- **galwadau ffôn:** monitro'r system Rhifau Adnabod Personol (PIN), cadw cofnod o geisiadau PIN dros y Ffôn gan garcharorion; cwblhau'r holl waith papur perthnasol gan gadw trywydd archwilio o sgyrsiau; sicrhau bod rhifau cyfreithiol yn gyfreithwyr cofrestredig
- **gweithdrefnau a phrotocolau:** deall a chydymffurfio â pholisïau cenedlaethol a lleol, ymateb yn briodol i roi gweithdrefnau brys ar waith a'r camau sy'n ofynnol mewn perthynas â digwyddiadau

Sut i wneud cais

Cam 1

1. **Dywedwch wrthym amdanoch chi eich hun**
   Cliciwch ymgeisio a rhowch eich manylion personol ar ein ffurflen gais

2. **Sefyll prawf byr ar-lein**
   Pan fyddwch yn gwneud cais, byddwch yn derbyn e-bost gyda chyfarwyddiadau manwl ar sut i sefyll ein prawf ar-lein. Mae hwn yn asesiad seiliedig ar ymddygiad sy'n asesu a oes gennych chi'r cryfderau naturiol a'r dewisiadau ymddygiad priodol i fod yn unigolyn ar Raddfa Cymorth Gweithredol. Byddwch yn cwblhau cyfres o dasgau bach sydd wedi'u llunio i ysgogi eich dewisiadau ymddygiad naturiol (e.e. sut rydych chi'n tueddu i wneud penderfyniadau yn naturiol). Er nad yw'r tasgau eu hunain wedi'u gosod yng nghyd-destun y rôl, maen nhw wedi'u llunio i arsylwi ar yr ymddygiadau sydd bwysicaf i'r rôl. Bydd hyn yn cymryd tua 40 munud i'w gwblhau, ond nid oes terfyn amser.
   Does dim angen i chi fod yn chwaraewr gemau i wneud yn dda yn y prawf hwn. Rydyn ni'n chwilio am eich gallu naturiol i lwyddo yn y rôl.

Cyn i chi sefyll y prawf, cewch gyfle i ymarfer a pharatoi ar gyfer y prawf go iawn. Byddwch yn cael gwybodaeth a dolen i weld hwn a'r prawf ei hun ar ôl i chi wneud cais.

Cam 2

Os byddwch yn pasio'r prawf, byddwn yn eich gwahodd am gyfweliad.

Yn y cyfweliad, byddwn yn eich asesu yn erbyn yr ymddygiadau canlynol o ran **Proffil Llwyddiant** -

- Cyfathrebu a Dylanwadu
- Cyflawni'n Gyflym
- Rheoli Gwasanaeth o Safon
- Cydweithio

Bydd y cyfweliad yn un cyfunol sy'n cynnwys ymddygiadau a phrofiad. Bydd yn gyfle delfrydol i ddweud mwy wrthym amdanoch chi eich hun, eich hanes gwaith neu eich profiadau personol, er mwyn i ni ddod i'ch adnabod yn well ac asesu pa mor addas fyddwch chi ar gyfer gwaith carchar. Bydd eich Cryfderau'n cael eu hasesu yn y cyfweliad hefyd, ond ni fydd y rhain yn cael eu rhannu ymlaen llaw.

Proffiliau Llwyddiant

Bydd Proffiliau Llwyddiant yn galluogi dull recriwtio tecach a mwy cynhwysol drwy ein galluogi i asesu'r ystod o brofiadau, galluoedd, cryfderau, ymddygiadau a sgiliau technegol/proffesiynol sydd eu hangen ar gyfer gwahanol swyddi. Mae'r dull hyblyg hwn o recriwtio yn canolbwyntio mwy ar ddod o hyd i'r ymgeisydd iawn ar gyfer y swydd benodol. I gael rhagor o wybodaeth am Broffiliau Llwyddiant i gefnogi eich cais **cliciwch yma i gael rhagor o arweiniad**.

Oherwydd pandemig Covid-19, rydyn ni'n cymryd camau i sicrhau diogelwch ymgeiswyr a staff. O ganlyniad, bydd rhai carchardai'n cynnal cyfweliadau fideo byw. Bydd yr holl fanylion yn cael eu hanfon atoch cyn eich cyfweliad.

Rhaid i ddeiliad y swydd allu cyflawni holl agweddau llafar y swydd yn hyderus yn Saesneg neu yn y Gymraeg (pryd y nodir hynny yng Nghymru).

I gael rhagor o wybodaeth **ewch i'n gwefan**

Cynnig swydd: swydd wag 'teilyngdod'

Swydd wag 'teilyngdod' yw hon. Os byddwch yn llwyddiannus yn y cyfweliad, byddwch yn cael eich ychwanegu at restr teilyngdod yn seiliedig ar eich sgôr.

Pan fydd pob ymgeisydd wedi cwblhau'r asesiad, bydd y carchar yn cynnig swydd i'r rheini sydd â'r sgoriau uchaf yn gyntaf pan fydd swyddi'n dod ar gael.

Gallwch aros ar y rhestr teilyngdod am 12 mis. Ar ôl hyn, bydd angen i chi wneud cais eto.

Rhaid i ddeiliad y swydd allu cyflawni holl agweddau llafar y swydd yn hyderus yn Saesneg neu yn y Gymraeg (pryd y nodir hynny yng Nghymru).

Manylion Lwfans

Yn ogystal, byddwch yn cael lwfans gwaith anghymdeithasol o 17% sydd wedi'i gynnwys i adlewyrchu'r gofyniad i weithio yn y nos, gyda'r nos ac ar benwythnosau. Mae'r lwfans wedi'i gynnwys yn y ffigurau cyflog a ddyfynnwyd.

Gweithio i'r Gwasanaeth Sifil

Lle Gwych i Weithio i Gyn-filwyr

Mae'r cynllun 'Gwneud y Gwasanaeth Sifil yn Lle Gwych i weithio i gyn-filwyr' yn cynnwys cynllun gwarantu cyfweliad i'r rheini sy'n bodloni'r meini prawf sylfaenol i roi cyfleoedd i gyn-aelodau cymwys o'r Lluoedd Arfog sicrhau swyddi sy'n rhoi boddhad. Caniatáu i gyn-filwyr barhau i wasanaethu eu gwlad, a dod ag unigolion medrus iawn sydd ag ystod eang o brofiad i'r Gwasanaeth Sifil mewn amgylchedd sy'n cydnabod ac yn gwerthfawrogi eich gwasanaeth blaenorol yn y Lluoedd Arfog.

I gael rhagor o fanylion am y cynllun a'r gofynion o ran cymhwysedd, ewch i:

https://www.gov.uk/government/news/making-the-civil-service-a-great-place-to-work-for-veterans

Mae Cod y Gwasanaeth Sifil yn nodi'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan weision sifil.

Rydym yn recriwtio yn ôl teilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored, fel y nodir yn egwyddorion recriwtio Comisiwn y Gwasanaeth Sifil. Os ydych chi'n teimlo bod y broses recriwtio wedi torri'r egwyddorion recriwtio, gallwch gyflwyno cwyn ffurfiol yn y drefn ganlynol:

1- I Shared Service Connected Ltd (0845 241 5358 (Llun-Gwener 8am - 6pm) neu drwy e-bost i Moj-recruitment-vetting-enquiries@gov.sscl.com);

2- I Wasanaeth Adnoddau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (resourcing-services@justice.gov.uk);

3- I Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil (manylion ar gael yma)

Rydym yn annog ceisiadau gan bobl o bob cefndir ac yn anelu at gael gweithlu sy'n cynrychioli'r gymdeithas ehangach rydym yn ei gwasanaethu. Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn gyflogwr o ddewis. Rydym yn hyrwyddo amrywiaeth, cynhwysiant a lles ac yn ceisio creu gweithle lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn teimlo eu bod yn perthyn. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn gwneud hyn ewch i:
https://www.gov.uk/government/organisations/ministry-of-justice/about/equality-and-diversity.

Cymorth anabledd

Mae'r Gwasanaeth Sifil yn croesawu amrywiaeth ac yn hyrwyddo cyfle cyfartal. Fel cyflogwr Hyderus o ran Anabledd, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi ymrwymo i roi cyfle i bawb ddangos eu sgiliau, eu talent a'u galluoedd, drwy wneud addasiadau i bob elfen o'r broses recriwtio ac yn y gweithle. Gall y Weinyddiaeth Gyfiawnder gynnig cyfweliad i ymgeiswyr anabl sy'n bodloni'r meini prawf dethol sylfaenol, ac eithrio mewn nifer cyfyngedig o ymgyrchoedd.

Byddwch yn gallu gwneud cais am addasiadau rhesymol i'r broses recriwtio yn y ffurflen gais. Os oes angen cymorth ychwanegol arnoch i lenwi'r ffurflen gais, cysylltwch â Thîm Ymholiadau Recriwtio SSCL.

Nodwch, os gwelwch yn dda - rydych chi'n gwneud cais am ymgyrch clwstwr ac, o'r herwydd, mae'n bosib y cewch eich dyrannu i unrhyw un o'r carchardai a restrir yn yr hysbyseb hwn.

Disgrifiad Swydd Cymraeg
Berwyn Welsh.docx (1).pdf – 99KB

Y Gymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol
Hanfodol
Rhaid i ddeiliad y swydd allu cyflawni holl agweddau llafar y swydd yn hyderus yn Saesneg neu yn y Gymraeg (pryd y nodir hynny yng Nghymru).
Manylion Lwfans
Yn ychwanegol, byddwch yn cael lwfans gwaith anghymdeithasol o 17%. Mae'r hwn wedi'i gynnwys yn y ffigurau cyflog a ddyfynnwyd.
Gwybodaeth Ychwanegol
Gwybodaeth Ychwanegol

Trefniadau Gwaith a Rhagor o Wybodaeth

Mae rhai o delerau ac amodau gwasanaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder – gan gynnwys NOMS – yn newid fel rhan o'r gwaith o ddiwygio'r Gwasanaeth Sifil. Bydd y newidiadau'n berthnasol i staff sy'n ymuno â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac sy'n newydd i'r Gwasanaeth Sifil. Bydd staff sy'n ymuno â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar ôl gweithio i gyflogwyr eraill yn y gwasanaeth sifil yn trosglwyddo i delerau newydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder os ydynt eisoes ar delerau 'wedi'u moderneiddio' yn eu swydd bresennol, neu'n cael telerau 'heb eu moderneiddio' y Weinyddiaeth Gyfiawnder os ydynt ar delerau 'heb eu moderneiddio' yn eu swydd bresennol. Bydd manylion ar gael os cynigir y swydd.

Yr oriau gweithio safonol ar gyfer y swydd hon yw 37 awr yr wythnos, heb gynnwys egwyliau sy'n ddi-dâl.

Os ydych chi'n gweithio i'r NPS ar hyn o bryd, mae'n bosibl y bydd y swydd wag hon ar gael ar sail Benthyciad am hyd at 2 flynedd. Gwahoddir ceisiadau gan staff cymwys addas.

Mae'r Benthyciad/Secondiad yn amodol ar gymeradwyaeth Uned Busnes yr ymgeisydd sydd wedi'i ddewis, a dylid ei sicrhau cyn cadarnhau'r penodiad.

Manteision

Gwyliau Blynyddol

Mae'r flwyddyn wyliau yn dechrau ar 1 Mawrth. Os nad oes gennych batrwm gwaith safonol, mae'n bosib y bydd eich hawl gwyliau yn cael ei chyfleu ar ffurf oriau neu ddiwrnodau, fel y bo'n briodol. Mae hawl gwyliau yn cael ei gyfrifo ar sail pro rata, a byddwch yn cael gwybod faint yn union o wyliau sydd gennych chi wrth gael eich penodi. Os cawsoch chi eich penodi'n fewnol a bod eich gwyliau yn arfer cael ei gyfrifo ar ffurf diwrnodau, bydd yn dal i gael ei gyfrifo felly.

Gwyliau Banc, Gwyliau Cyhoeddus a Diwrnodau Braint

Mae gennych chi hawl i gael 9 diwrnod (66 awr a 36 munud) i gydnabod gwyliau banc, gwyliau cyhoeddus a diwrnodau braint. Bydd yr oriau hyn yn cael eu hychwanegu at eich lwfans gwyliau blynyddol. Bydd gofyniad i chi weithio ar rai gwyliau cyhoeddus a gwyliau banc, yn amodol ar eich patrwm shifftiau ac ar anghenion gweithredol y sefydliad.

Buddion

Mae'r Gwasanaeth Sifil yn cynnig dewis o ddau gynllun pensiwn, gan roi'r hyblygrwydd i chi ddewis y pensiwn sy'n gweddu orau i chi.

Cydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith

Mae'r Gwasanaeth Carchardai yn awyddus i hybu trefniadau gwaith amgen. Mae cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith yn rhoi mwy o gyfleoedd i staff weithio'n fwy hyblyg pryd bynnag y bydd rheolwyr a sefydliadau yn gallu derbyn ceisiadau i wneud hynny. Mae'r Gwasanaeth Carchardai yn cynnig amodau gwaith hyblyg, yn amodol ar gyflawni NVQ a chyfnod prawf boddhaol.

Blaendal Tocyn Tymor

Ar ôl dau fis o wasanaeth, byddwch yn gymwys i wneud cais am flaendal tocyn tymor i brynu tocyn tymor chwarterol neu am gyfnod hwy er mwyn teithio rhwng eich cartref a'ch man gwaith.

Hyfforddiant

Yn ogystal â'r rhaglen gynefino unigol a gyflwynir yn y Sefydliad a fydd yn cynnwys hyfforddiant diogelwch ac amrywiaeth, bydd gofyn i chi ddilyn cwrs hyfforddi pythefnos o hyd a fydd yn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i gyflawni eich dyletswyddau'n effeithiol.

Mae'r Gwasanaeth Carchardai wedi ymrwymo i ddatblygu ei staff ac mae'n cynnig ystod o gyfleoedd hyfforddi a datblygu sy'n cynnwys meysydd fel Rhaglenni Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Delio ag Ymddygiad Heriol, Atal Hunanladdiad a Gwrth-Fwlio.

Mae cyfleoedd i ymuno â rhaglenni dyrchafiad, ac mae'r Gwasanaeth Carchardai yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi perthnasol ar gyfer swyddi unigol.

Cymhwysedd

Bydd angen cynnal gwiriadau diogelwch ac adnabod ar bob ymgeisydd cyn cychwyn yn y swydd

Mae cyfnod prawf o 6 mis yn berthnasol i bob ymgeisydd allanol. Bydd yn rhaid i ymgeiswyr mewnol wneud cyfnod prawf os nad ydyn nhw wedi gwneud cyfnod prawf i NOMS yn barod

Bydd yn rhaid i'r holl staff ddatgan a ydynt yn aelod o grŵp neu sefydliad sy'n cael ei ystyried yn hiliol gan y Gwasanaeth Carchardai.

Dyddiadau cyfweliadau
I'w cadarnhau
Dyddiad Cau:
21/04/2022, 23:55 o'r gloch.

Manylion cyswllt
Gwybodaeth Ychwanegol

Dyddiad Cau: 21st Ebrill 2022

Dyddiadau Cyfweliadau: I'w cadarnhau

Os oes angen cymorth arnoch, ffoniwch 0845 241 5359 (o Ddydd Llun i Ddydd Gwener 8am - 6pm) neu anfonwch e-bost at Moj-recruitment-vetting-enquiries@gov.sscl.com Nodwch gyfeirnod y swydd os gwelwch yn dda - 53283

Proffiliau Llwyddiant
Bydd Proffiliau Llwyddiant yn galluogi dull recriwtio tecach a mwy cynhwysol drwy ein galluogi i asesu'r ystod o brofiadau, galluoedd, cryfderau, ymddygiadau a sgiliau technegol/proffesiynol sydd eu hangen ar gyfer gwahanol swyddi. Mae'r dull hyblyg hwn o recriwtio yn canolbwyntio fwy ar ddod o hyd i'r ymgeisydd iawn ar gyfer y swydd benodol. I gael rhagor o wybodaeth am Broffiliau Llwyddiant i gefnogi eich cais **cliciwch yma i gael rhagor o arweiniad**.

Os ydych o’r farn nad yw eich cais wedi'i drin yn unol ag Egwyddorion Recriwtio’r Gwasanaeth Sifil, cysylltwch â SSCL (Moj-recruitment-vetting-enquiries@gov.sscl.com) yn y lle cyntaf.
Rydym wedi darparu manylion y camau asesu a’r meysydd sy’n cael eu hasesu i’ch helpu i baratoi ar gyfer llenwi eich ffurflen gais, ac i roi gwybod i chi beth fydd yn cael ei asesu yn dilyn hyn, os byddwch yn llwyddo i basio’r cam ymgeisio.

Asesiadau cam ffurflen gais

Asesiadau cam cyfweld

Ceir 1 cam cyfweld ar gyfer y swydd hon.
Ymddygiad
Cyfathrebu a Dylanwadu
Cyflawni'n Gyflym
Rheoli Gwasanaeth o Safon
Cydweithio
Gallai eich Cryfderau gael eu hasesu yn y cyfweliad hefyd, ond ni fydd y rhain yn cael eu rhannu ymlaen llaw.
Lle Gwych i Weithio i Gyn-filwyr

Mae’r cynllun ‘Gwneud y Gwasanaeth Sifil yn Lle Gwych i weithio i gyn-filwyr’ yn cynnwys cynllun gwarantu cyfweliad i’r rheini sy’n bodloni’r meini prawf sylfaenol i roi cyfleoedd i gyn-aelodau cymwys o’r Lluoedd Arfog sicrhau swyddi sy’n rhoi boddhad. Caniatáu i gyn-filwyr barhau i wasanaethu eu gwlad, a dod ag unigolion medrus iawn sydd ag ystod eang o brofiad i’r Gwasanaeth Sifil mewn amgylchedd sy’n cydnabod ac yn gwerthfawrogi eich gwasanaeth blaenorol yn y Lluoedd Arfog.
I gael rhagor o fanylion am y cynllun a’r gofynion o ran cymhwysedd, ewch i: https://www.gov.uk/government/news/making-the-civil-service-a-great-place-to-work-for-veterans

Apply